# Adnoddau Athrawon

Yn ogystal â'r gweithdai a gyflwynir gan y staff addysg mae'r Amgueddfa yn cynnig amrywiaeth o gyfleon dysgu. Lawrlwythwch ein canllaw sy'n cynnwys gwybodaeth i baratoi eich disgyblion ar gyfer eu hymweliad, rhai strategaethau dysgu i'w defnyddio yn yr Amgueddfa a syniadau i'w datblygu yn y dosbarth.

## Disgyblion hŷn

### Datblygu Cyfathrebu

Beth sy'n newydd i chi?
Allwch chi weld rhywbeth rydych chi'n gwybod amdano'n barod?
Beth hoffech chi ddysgu mwy amdano?
Allwch chi weld eitemau sydd â nodweddion penodol;


- Eitemau all gael eu defnyddio i …
- Eitemau sy'n esiamplau o …
- Eitemau allai gael eu gwella drwy ...



### Datblygu sgiliau Ymchwil a Chyfathrebu

Nid taflenni gwaith yw'r unig opsiynau.
Gofynnwch i'r disgyblion ddefnyddio'r orielau a'r gwrthrychau i gasglu gwybodaeth ar gyfer project:

- Datblygu cyfweliad rhwng gwyddonwyr/archwilwyr/cadwraethwyr/haneswyr. I'w gyflwyno yn yr ysgol.
- Dylunio arddangosfa well. Cymryd nodiadau yn yr Amgueddfa a darlunio cynlluniau yn yr ysgol.
- Llunio cwis ar gyfer gweddill y dosbarth gan ddefnyddio'r oriel.
- Rhoi cyflwyniad byr yn yr ysgol am eu hoff wrthrych yn yr Amgueddfa.
- Creu amgueddfa ddosbarth yn yr ysgol, gyda'r disgyblion yn dylunio ac yn creu labeli ar gyfer yr arddangosfa. Creu gwahoddiadau a gwahodd ymwelwyr i 'agoriad mawreddog'.



- Ysgrifennu traethawd. Cymryd nodiadau yn yr Amgueddfa ac ysgrifennu traethawd yn yr ysgol.
- Creu model o anifail, neu broses ffosileiddio, neu wrthrych archaeolegol ac ati. Ymchwilio yn yr Amgueddfa ac adeiladu'r model yn yr ysgol.
- Defnyddio sgiliau TGCh i dylunio hysbyseb, poster neu daflen i hyrwyddo'r Amgueddfa.



- Gall testun a dehongliad oriel gael ei ddefnyddio i ddatblygu llythrennedd:

Sut caiff gwrthrychau eu trefnu? Beth yw'r rhesymeg tu ôl i hyn?
Sut caiff penawdau ac is-benawdau eu defnyddio?
Oes unrhyw rifau neu allwedd i'r sbesimenau?
Ddylai'r gwrthrychau gael eu gweld mewn trefn arbennig? (e.e. oes llinell amser)
Sut ydyn ni'n gwybod hyn?
Pa strategaethau allwn ni eu defnyddio i ddeall geiriau anghyfarwydd ar labeli? Sut mae diagramau a mapiau y cael eu defnyddio yn yr oriel?

- Gall ymweliad â'r Amgueddfa gael ei ddefnyddio i wella llythrennedd hefyd.
- Defnyddiwch ein casgliadau i archwilio siâp
  gofod
  patrymau
  mesur
- Mae ymweld â'r siop yn gyfle i ymarfer mathemateg arian
- Defnyddiwch fapiau a chynlluniau amgueddfa i ymarfer cyfesurynnau a chyfeiriadau
- Mae dyddiadau ar nifer o'n sbesimenau – heriwch y disgyblion i ganfod y sbesimen hynaf/diweddaraf mewn oriel neu i weithio allan oed gwrthrych penodol.

